**Rhif: WG52847**

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

# Cynigion o ran dull gweithredu ar gyfer Cronfa Twf Lleol y DU yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 07 Tachwedd 2025

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 19 Rhagfyr 2025

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar ein cynigion i fuddsoddi Cyllid Twf Lleol yng Nghymru, wedi'i ariannu gan Lywodraeth y DU, rhwng 2026 a 2029. Bydd Llywodraeth Cymru yn llunio ac yn gweithredu Cynllun Buddsoddi tair blynedd i gyfeirio'r cyllid hwn a bydd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod ein cynllun yn cyflawni amcanion ar gyfer twf ledled y DU. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar ein cynigion ar gyfer y Cynllun Buddsoddi hwn, gan gynnwys yr egwyddorion cyffredinol, y blaenoriaethau craidd a'r amcanion ar gyfer buddsoddi, a'r model cyflawni.

## Sut i ymateb

Mae hwn yn ymgynghoriad chwe wythnos, a'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw **19 Rhagfyr 2025.**

Y rhesymau dros ymgynghoriad chwe wythnos yw bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn i ddatblygu Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol ar gyfer Cymru yn 2020, gyda'r egwyddorion craidd y cytunwyd arnynt yn parhau i fod yn allweddol i'n cynlluniau ar ôl 2026. Byddai cyfnod ymgynghori hirach yn peryglu datblygu Cynllun Buddsoddi newydd gyda phartneriaid yng Nghymru gan arwain at oedi i gyflawni'r rhaglen o fis Ebrill 2026 ymlaen.

A fyddech cystal ag ymateb drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein neu lenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad sydd wedi'i hamgáu a'i hanfon at unrhyw un o'r canlynol:

E-bost:
RegionalInvestmentinWales@gov.wales

Drwy'r post:
Ymgynghoriad ar Gyllid Twf Lleol yng Nghymru
Yr Is-adran Strategaeth Economaidd a Rheoleiddio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
Yr Is-adran Strategaeth Economaidd a Rheoleiddio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: RegionalInvestmentinWales@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg
Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg hefyd.

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon dros brosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru. (Erth 6(1)(e)

Bydd unrhyw ymateb y byddwch yn ei anfon atom yn cael ei ddarllen yn ei gyfanrwydd gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau pellach. Yn achos ymgyngoriadau ar y cyd, mae'n bosibl hefyd y bydd hyn yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Os bydd Llywodraeth Cymru am fynd ati i ddadansoddi mwy ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'n bosibl y bydd trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) yn cael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwnnw. Rhaid i unrhyw waith o'r fath gael ei wneud o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a'i bod yn bosibl y bydd Llywodraeth Cymru o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, byddant yn rhan o adroddiadau a gaiff eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch fel arall yn cael eu cadw am dair blynedd fan bellaf.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawliau canlynol:

- i gael gwybod am y data personol sy'n cael eu cadw amdanoch, a'u gweld
- yr hawl i ofyn inni gywiro unrhyw beth sy'n anghywir yn y data hwnnw
- yr hawl i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (o dan amgylchiadau penodol)
- yr hawl i ofyn bod eich data yn cael ei 'ddileu' (o dan amgylchiadau penodol)
- yr hawl i gludadwyedd y data (o dan amgylchiadau penodol)
- yr hawl i wneud cwyn a'i chyflwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r ffordd y mae'n cael ei defnyddio, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan GDPR y DU, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays, CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: dataprotectionofficer@gov.wales

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House, Water Lane
Wilmslow, Cheshire SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: https://cy.ico.org.uk/

## CYNNWYS


Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio .......... 5
ADRAN 1: Y CYD-DESTUN .......... 7
1.1 Y cyd-destun polisi .......... 7
1.2 Egwyddorion arweiniol .......... 8
1.3 Dadansoddiad economaidd-gymdeithasol .......... 10
ADRAN 2: BLAENORIAETHAU AC AMCANION .......... 12
2.1 Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol .......... 14
2.2 Cefnogi pobl i gael gwaith a chynyddu eu sgiliau .......... 17
2.3 Seilwaith gwyrdd ac effeithlonrwydd ynni .......... 20
2.4 Seilwaith lleol i yrru economïau rhanbarthol .......... 23
ADRAN 3: MODEL PONTIO A DARPARU .......... 25
3.1 Rheoli'r broses bontio i'r model Cyllid Twf Lleol .......... 25
3.2 Dull aml-haenog: cenedlaethol, rhanbarthol a lleol .......... 27
3.3 Buddsoddiadau cenedlaethol a rolau .......... 30
3.4 Buddsoddiadau rhanbarthol a rolau .......... 31
3.5 Gwerthuso a dangos tystiolaeth o gyflawni .......... 34

## Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio



Mae Cymru'n wlad hyderus a blaengar sydd â'i seiliau wedi'u hadeiladu ar dreftadaeth ddiwydiannol falch. Mae pob rhanbarth yng Nghymru wedi meithrin ei gryfderau i addasu i economi sy'n newid ac i ymateb i heriau byd-eang. Mae buddsoddi cyhoeddus wedi'i dargedu wedi bod yn bwysig i helpu i gefnogi'r broses hon o newid ac adnewyddu di-dor ac i helpu'r sector preifat i dyfu. Nid ydym wedi gallu buddsoddi cymaint ag y byddem wedi'i hoffi yn y blynyddoedd diwethaf, hynny oherwydd colli arian yr UE.

Gan weithio law yn llaw â llywodraeth leol, ac ar y cyd â'n partneriaid ledled Cymru, dyma gyfle, diolch i gyllid gan Lywodraeth y DU trwy'r Gronfa Twf Lleol, i fuddsoddi ledled Cymru ac i ymateb i gyfleoedd twf yng Nghymru, y DU a'r byd ac i wneud yn fawr ohonyn nhw.

Mae'r Gronfa Twf Lleol yng Nghymru yn bwysig o ran cryfhau'r cydweithredu â Llywodraeth y DU. Mae'r pwerau i wneud penderfyniadau ynghylch cyllid ers gadael yr UE wedi dod 'nôl i Lywodraeth Cymru. Felly cawn benderfynu gyda'n partneriaid yng Nghymru sut i'w wario yng Nghymru. Ochr yn ochr â mentrau ar y cyd fel y Bargeinion Dinesig a Thwf, Porthladdoedd Rydd a Pharthau Buddsoddi, mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'i gilydd i sbarduno twf ac i gyflawni dros Gymru. Bwriad y Gronfa Twf Lleol yng Nghymru yw gwireddu'r uchelgeisiau o ran twf rydym yn eu rhannu â Llywodraeth y DU. Mae ein *Cenhadaeth Economaidd* yng Nghymru a'n blaenoriaethau ehangach o ran swyddi a thwf eisoes yn adlewyrchu *Cynllun Newid* Llywodraeth y DU a *Strategaeth Ddiwydiannol y DU*.

Rydym wedi dysgu sut gymaint oddi wrth ein partneriaid yng Nghymru. Cryfder y bartneriaeth hon, lle mae Llywodraeth Cymru yn dod ynghyd â llywodraeth leol, busnesau a mentrau cymdeithasol, sefydliadau ymchwil ac academaidd, y trydydd sector a chyrff cyhoeddus eraill, yw y bydd yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer sbarduno cyfleoedd drwy'r Gronfa Twf Leol gyda chreadigrwydd ac uchelgais.

Ein Deddf *Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* yw conglfaen holl bolisïau Llywodraeth Cymru ac mae'n llywio popeth a wnawn. Mae'r cynigion ymgynghori hyn yn seiliedig ar gydweithio cadarn dros sawl blwyddyn. Yn eu plith y mae ein *Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru*, ein gwaith gyda'r

Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), a syniadau gan ein Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol dan gadeiryddiaeth Carolyn Thomas AS.

Yng Nghymru, mae ein polisïau a'n modelau cynllunio a chyflawni rhanbarthol a lleol yn unigryw. Trwy ein *Cenhadaeth Economaidd*, a'n cynigion ar gyfer y Gronfa Twf Lleol, rydym yn ceisio cryfhau ein rhanbarthau, sydd mewn sefyllfa well na Llywodraeth Cymru i adnabod a blaenoriaethu anghenion, cyfleoedd a chryfderau unigryw eu hardaloedd trefol, gwledig, ôl-ddiwydiannol, dinesig ac arfordirol.
Er gwaethaf gwelliannau sylweddol mewn sawl ardal ers datganoli, ceir gwendidau economaidd strwythurol, problemau cynhyrchiant ac anghydraddoldebau rhanbarthol mewn sawl rhan o'r wlad o hyd. Mae'r byd yn newid, ac mae angen i ninnau newid gydag ef i wneud y gorau o'r cyfleoedd a ddaw i Gymru, y DU ac yn fyd-eang.

Mae'r Gronfa Twf Lleol yn rhoi cyfle i ni edrych ar y dirwedd fuddsoddi ledled Cymru, ym mhob un o'n rhanbarthau, ac ar draws cymunedau a gweld ble mae yna fylchau neu gyfleoedd nad yw cronfeydd a rhaglenni eraill yn eu hystyried. Fel hyn felly gallwn ddod ag elfennau buddsoddi gwahanol ynghyd i gefnogi twf a swyddi, sicrhau canlyniadau gwell a chael mwy am ein harian.

Bydd ein partneriaeth ddibynadwy â llywodraeth leol yn parhau i fod yn hanfodol i ddatblygu a chyflwyno y Gronfa Twf Leol yng Nghymru. Er enghraifft, mae'r cynigion yn y ddogfen hon wedi elwa o, ac wedi cael eu llywio gan, y trafodaethau adeiladol rheolaidd rwy'n eu cael gyda llefarwyr economaidd CLlLC. Mae gan lywodraeth leol brofiad sylweddol o fuddsoddi ledled Cymru a bydd gan bob lefel o lywodraeth leol rannau allweddol i'w chwarae, o awdurdodau lleol i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Rydym ninnau yn ein tro yn parhau i ymrwymo i sicrhau bod llais llywodraeth leol a'r holl bartneriaid eraill yn rhan o'r model newydd i lywio buddsoddi mewn ffyrdd ffres a chreadigol a chyfrannu at lwyddiant y Gronfa Twf Lleol yng Nghymru.

Er mwyn gweld pob rhan o Gymru'n tyfu, ein nod yw gweithio mewn ffordd sy'n annog ymchwil, arloesi a chysylltedd, sy’n helpu busnesau a mentrau cymdeithasol i dyfu, sy’n gwella sgiliau ac yn cefnogi pobl i weithio, yn ogystal â buddsoddi mewn seilwaith lleol ar gyfer twf rhanbarthol.  Byddwn yn darparu'r Gronfa Twf Leol tair blynedd newydd hon i Gymru o fis Ebrill y flwyddyn nesaf. Gyda phartneriaethau'n ganolog i bopeth a wnawn, rydym wedi ymrwymo i ymgynghori ar ein cynlluniau ar gyfer Cymru fel bod pawb yn cael cyfle i ddweud ei ddweud am yr hyn a fydd yn gweithio orau i'n pobl, ein busnesau a'n cymunedau.

Rwy'n disgwyl ymlaen at glywed eich barn fel y gallwn gyda'n gilydd wneud yn fawr o'r cyfleoedd a ddaw gyda'r Gronfa Twf Leol i greu Cymru gryfach, gwyrddach a thecach.



**Rebecca Evans AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**

# ADRAN 1: Y CYD-DESTUN

## 1.1 Y cyd-destun polisi

Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd £547m o gyllid twf lleol ar gael i Lywodraeth Cymru dros dair blynedd rhwng mis Ebrill 2026 a mis Mawrth 2029. Caiff y cyllid hwn ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru er mwyn darparu Cronfa Twf Lleol, sy'n destun yr ymgynghoriad hwn. Ar yr un pryd, bydd Llywodraeth y DU yn cyflawni ei rhaglen Balchder Bro[1].

Ledled y DU, bydd y cronfeydd Twf Lleol yn cyflawni *Cynllun ar gyfer Newid*[2] Llywodraeth y DU, pum cenhadaeth ar gyfer hybu twf, *Strategaeth Ddiwydiannol y DU*[3], ac yn cyfrannu at strategaethau ledled y DU fel *Cefnogi eich Busnes*[4]. Yng Nghymru, byddwn yn sicrhau bod ein dull gweithredu yn cyflawni yn erbyn *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*[5], *Cenhadaeth Economaidd*[6] Llywodraeth Cymru, a pholisïau a rhaglenni allweddol Llywodraeth Cymru[7] i gefnogi ein heconomi a'n marchnad lafur.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gweithio mewn partneriaeth i gefnogi economi Cymru ac mae Cyllid Twf Lleol yn rhan o'r darlun hwn. Mae dychwelyd yr hawl i wneud penderfyniadau ynghylch y gronfa hon i Lywodraeth Cymru yng Nghymru yn cyflawni addewid Llywodraeth y DU i adfer y broses o wneud penderfyniadau ar y cyllid sy'n dod yn lle cronfeydd strwythurol yr UE i gynrychiolwyr Cymru. Yn ei dro, gallwn nawr sicrhau bod cyllid yn rhan o ddull gweithredu cydgysylltiedig ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol a'i fod yn gweithio ochr yn ochr â buddsoddiadau eraill wedi eu targedu'n lleol i gefnogi swyddi a thwf, gan gynnwys Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf, ac Ardaloedd Buddsoddi.

Ein hamcan ar gyfer y Gronfa Twf Lleol yw ***cefnogi twf cynhyrchiant a mynd i'r afael â materion sy'n arwain at anghydraddoldebau economaidd ledled Cymru***.

Mae Llywodraeth y DU wedi datblygu tri o themâu eang ar gyfer y Gronfa Twf Lleol i gyfrannu at ei nodau strategol ar gyfer cyflawni incwm gwario gwirioneddol uwch a rhoi hwb i Gynnyrch Domestig Gros. Mae'r themâu eang hyn eisoes yn adlewyrchu'n gyffredinol y blaenoriaethau a'r cynigion o ran buddsoddi a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn.

---

[1] £214m o gyllid newydd i gymunedau Cymru i wella cymdogaethau ac adfer balchder - GOV.UK (Mae £63m yn cynrychioli'r tair blynedd nesaf o gyllid a ddyrannwyd yn yr adolygiad gwariant ar gyfer hyn)
[2] Cynllun ar gyfer Newid - GOV.UK
[3] The UK Modern Industrial Strategy 2025 - GOV.UK
[4] Backing your business: our plan for small and medium sized businesses
[5] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion | LLYW.CYMRU
[6] Cenhadaeth economaidd: blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach [HTML] LLYW.CYMRU
[7] Er enghraifft, Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau: Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau LLYW.CYMRU; *Strategaeth Arloesi i Gymru:* Strategaeth arloesi i Gymru LLYW.CYMRU; *Gwaith Teg Cymru:* Canllaw i waith teg | LLYW.CYMRU a Gwaith Teg Cymru | LLYW.CYMRU; *Strategaeth Ryngwladol a Chynllun Cyflawni:* https://llyw.cymru/strategaeth-ryngwladol-i-gymru a Cynllun Cyflawni Rhyngwladol [HTML] LLYW.CYMRU;

Bydd Llywodraeth Cymru yn dylunio a chyflawni gyda phartneriaid Cymru gynllun buddsoddi'r Gronfa Twf Leol (i'w gyhoeddi ar cymru.llyw a gov.uk) sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn adlewyrchu angen a chyfleoedd yng Nghymru, ac sy'n ymateb gydag atebion wedi'u teilwra, effeithiol.  Wrth wneud hynny byddwn yn bodloni uchelgeisiau cyffredin i wneud hynny mewn partneriaeth ag ystod eang o sefydliadau yng Nghymru.  Bydd y cynllun buddsoddi yn cwmpasu'r tair blynedd o gyllid a gadarnhawyd yn yr Adolygiad Gwariant a bydd cyllid yn cael ei ryddhau i Lywodraeth Cymru drwy drosglwyddo cwmpas cyllideb bob blwyddyn, yn amodol ar broses adolygu flynyddol i wirio'r cynnydd yn erbyn y cynllun hwnnw.

Bydd tair thema eang Llywodraeth y DU a'r ymgynghoriad hwn yn llywio'r cynllun hwnnw'n uniongyrchol.  Y tair thema a bennir gan Lywodraeth y DU yw:

- **Galluogi seilwaith twf lleol**: gan gynnwys datblygu seilwaith a thrafnidiaeth a symudedd i wella mynediad at swyddi a hybu cynhyrchiant

- **Cymorth i fusnesau**: gan gynnwys cymorth busnes, cronfeydd buddsoddi, ymchwil a datblygu a meithrin arloesi

- **Cymorth sgiliau a chyflogaeth ar gyfer twf:** gan gynnwys cymorth ar gyfer rhaglenni sgiliau a mynd i'r afael â swyddi gwag mewn sectorau twf

Mae amcanion Llywodraeth y DU ar gyfer y Gronfa Twf Lleol hefyd yn gofyn am weledigaeth gydlynol, ar y cyd, sy'n adlewyrchu'r cyd-destunau llywodraethu a chyflawni yn y genedl berthnasol. Byddwn yn bodloni'r gofyniad hwn a'n hymrwymiad i'n nodau llesiant ein hunain drwy'r ymgynghoriad hwn a'r gwaith y byddwn yn ei wneud yn weithredol i ddatblygu a chyflwyno cynllun buddsoddi gyda phartneriaid yng Nghymru o lywodraeth leol, busnes a mentrau cymdeithasol, y trydydd sector, ac addysg uwch ac addysg bellach.

**Nodyn**: *Datblygwyd y dadansoddiad a'r cynigion a nodir yn y ddogfen hon cyn fframwaith y DU ond maent wedi'u halinio'n fras. Felly, rydym yn disgwyl trefnu ein Cynllun Buddsoddi terfynol o amgylch themâu fframwaith y DU er cysondeb (e.e. cydgrynhoi amcanion o dan un blaenoriaeth seilwaith) ond nid yw hyn yn effeithio ar gynnwys na sylwedd yr ymgynghoriad*.

## 1.2 Egwyddorion arweiniol

Er mwyn cyflawni ein huchelgais i ***gefnogi twf cynhyrchiant a mynd i'r afael â materion sy'n arwain at anghydraddoldebau economaidd ledled Cymru***, rydym yn cynnig yr egwyddorion canlynol i lywio cynlluniau a buddsoddiadau'r Gronfa Twf Lleol. Datblygwyd y rhain drwy ein gwaith gyda phartneriaid yng Nghymru a'r OECD dros nifer o flynyddoedd[8]:

[8] Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit; Fframwaith ar gyfer buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru: ymgynghoriad LLYW.CYMRU. Prosiect OECD Adolygiad yr OECD o wahanol haenau llywodraethu: adroddiad (Saesneg yn unig) | LLYW.CYMRU a

a) **Canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau** i gefnogi newidiadau hirdymor. Dylai buddsoddiadau gyfrannu at flaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol a dangos effaith amlwg.

b) **Cefnogi a grymuso rhanbarthau drwy ein Cyd-bwyllgorau Corfforedig** i bortffolios wedi'u blaenoriaethu o gyfleoedd ac anghenion rhanbarthol a lleol sy'n seiliedig ar fuddsoddiad. Rydym yn disgwyl i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ddenu buddsoddiad ehangach gyda'r cyllid hwn ac i weithio’n agos gydag awdurdodau lleol a’u partneriaethau ehangach.

c) **Integreiddio â rhaglenni eraill Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac ychwanegu gwerth atynt** er mwyn osgoi dyblygu a chynyddu effaith a gwerth am arian.

d) **Rhoi digon o hyblygrwydd i ymateb i dystiolaeth ac anghenion newydd sy'n dod i'r amlwg, gan gyflawni uchelgeisiau cyffredin Llywodraeth y DU a Chymru ar yr un pryd.**

e) **Cynllunio'n strategol ar sail amlflwydd** i roi mwy o ffocws ar ganlyniadau tymor hwy yn hytrach na gwario arian yn gyflym.

f) **Integreiddio cydraddoldeb, datblygu cynaliadwy a’r Gymraeg** yn ein holl fuddsoddiadau.

g) **Annog cydweithio ar draws ffiniau**, yng Nghymru, ac ar draws y DU ac yn rhyngwladol lle mae gennym anghenion neu gyfleoedd cyffredin.

h) **Sicrhau bod gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig, awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol y gallu a'r capasiti cywir** i ddylunio a chyflawni y Cyllid Twf Lleol, gan gynnwys ar gyfer trefniadau pontio a buddsoddi mewn capasiti hirdymor.

i) Cyflawni ein hymrwymiad i fod yn **agored, yn deg ac yn dryloyw ynghylch buddsoddiadau** drwy gyhoeddi gwybodaeth a data rheolaidd ar gyflawniad.

**Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â'r egwyddorion arweiniol craidd ac y dylid eu defnyddio ym mhob rhan o Gynllun Buddsoddi newydd i Gymru?**

**Cwestiwn 2. A ddylem ystyried unrhyw egwyddorion eraill?**

## 1.3 Dadansoddiad economaidd-gymdeithasol

Ategir yr ymgynghoriad hwn (Atodiad A) gan ddadansoddiad economaidd-gymdeithasol cryno. Mae hyn yn dadansoddi tueddiadau hirdymor i dynnu sylw at yr heriau a'r cyfleoedd presennol yn economi a marchnad lafur Cymru. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cyfrannu at ddadansoddiad economaidd-gymdeithasol llawn a bydd yn cyd-fynd â'n Cynllun Buddsoddi terfynol ar gyfer Cymru.

Mae economi Cymru wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn economi ehangach y DU a'r darlun cyffredinol yw bod perfformiad Cymru'n debyg i weddill y DU, ac eithrio Llundain. Fodd bynnag, mae bylchau hirsefydlog yn parhau i fodoli rhwng y DU a Chymru, er nad ydynt wedi ehangu. Mae twf economaidd yn is na safonau hanesyddol yn dilyn siociau economaidd ers 2008, fel yr argyfwng ariannol, gadael yr UE, a phandemig Covid. Yn fwy diweddar, mae twf wedi cael ei sbarduno gan gynnydd yn yr oriau a weithir, yn hytrach na chynhyrchiant (effeithlonrwydd wrth gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau)[9]

**Mae gwella cynhyrchiant** yn hanfodol i wella safonau byw a datblygu economi gynaliadwy sy'n tyfu ac sy'n cynhyrchu mwy gyda llai, yn arloesi, yn creu enillion ac yn gwobrwyo gweithwyr a pherchnogion busnes drwy gynnig cyflogau ac incymau gwell. Byddwn hefyd yn ceisio helpu i sicrhau bod manteision twf cynhyrchiant yn cael eu rhannu'n deg â gweithwyr drwy ein hymrwymiadau i waith teg a chynhwysiant.

Yn 2023, bu cynnydd o 1.3% yng nghynhyrchiant llafur Cymru, yr ail uchaf o holl wledydd a rhanbarthau'r DU, ac yn uwch na chyfartaledd y DU (-0.2%)[10]. Fodd bynnag, cynhyrchiant Cymru yw'r isaf o blith gwledydd a rhanbarthau'r DU o hyd ac mae diffyg twf mewn cynhyrchiant yn dal yn broblem i bob rhan o'r DU. Rydym am ganolbwyntio ar ffactorau sy'n gysylltiedig â gwella cynhyrchiant, gan gynnwys y rheini sy'n debygol o gyfrannu at yr amrywiad rhwng Cymru a gweddill y DU. Ymhlith ffactorau eraill, mae'r ffactorau hyn yn debygol o gynnwys gwella lefelau sgiliau, mwy o fuddsoddi mewn ymchwil ac arloesi, mwy o fuddsoddiad cyfalaf, gwell cysylltedd, a phoblogaeth iachach.

Mae cysylltiad yn aml rhwng **anghydraddoldebau economaidd** â gwahaniaethau mewn incwm, o ran cyflogau a budd-daliadau. Mae gan Gymru gyfradd gyflogaeth uchel a chyfradd ddiweithdra isel yn ôl safonau hanesyddol, gyda'r ddau'n agos at gyfartaledd y DU. Yn hanesyddol, mae cyfraddau anweithgarwch economaidd (cyfran y bobl o oedran gweithio nad ydynt mewn gwaith nac yn chwilio am waith) wedi bod yn uchel yng Nghymru yn hanesyddol, ond gwelsom y bwlch rhwng Cymru a'r DU yn lleihau'n sylweddol cyn 2019[11]. Er bod y lefelau'n parhau i fod yn is na safonau hanesyddol, mae cyfraddau wedi dechrau cynyddu eto, felly hefyd y bwlch rhwng y DU a Chymru. Mae'n ymddangos mai cyfraddau cynyddol o salwch tymor hir sy'n sbarduno hyn.

[9] Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2024

[10] Cynhyrchiant is-ranbarthol: 2002 i 2023 [HTML] | LLYW.CYMRU
[11] Trosolwg o'r Farchnad Lafur, Awst 2025

Gall anweithgarwch economaidd gael effeithiau negyddol sylweddol drwy leihau'r gweithlu sydd ar gael, arafu twf economaidd a thwf cynhyrchiant, gan gael effaith negyddol ar lesiant unigolion, a chynyddu'r pwysau ar gyllid cyhoeddus.

**Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno mai'r materion allweddol a nodwyd yn y dadansoddiad economaidd-gymdeithasol cryno (Atodiad A) yw'r rhai cywir y dylem ganolbwyntio arnynt?**

## ADRAN 2: BLAENORIAETHAU AC AMCANION

Mae'r blaenoriaethau buddsoddi a'r amcanion strategol a gynigir isod yn adlewyrchu themâu eang Llywodraeth y DU ar gyfer Cyllid Twf Lleol y DU (gweler adran 1), y dystiolaeth sy'n ymddangos o'r crynodeb o'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol, a thystiolaeth barhaus ar ddatblygu economaidd rhanbarthol, gan gynnwys arferion gorau rhyngwladol. Bydd yr amcanion strategol arfaethedig yn cael eu hadolygu yn sgil yr ymateb i'r ymgynghoriad hwn, a'n datblygiad o'r Gynllun Buddsoddi Cymru gyda llywodraeth leol a'n partneriaid ehangach.

Mae adrannau diweddarach yn trafod ein mecanwaith cyflawni arfaethedig, ond bwriad yr amcanion strategol a nodir yn y bennod hon o dan bob maes blaenoriaeth yw darparu dewislen gychwynnol o opsiynau i helpu i flaenoriaethu portffolio o brosiectau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar ba feysydd yw'r meysydd pwysicaf o ran ffocws, gan gydnabod na allwn gyflawni yn erbyn yr holl uchelgeisiau gyda'r cyllid a'r amserlen sydd ar gael. Byddwn yn cytuno â Llywodraeth y DU ar y prif ganlyniadau a deilliannau disgwyliedig ar gyfer pob blaenoriaeth. Bydd angen i ni flaenoriaethu buddsoddiad a defnyddio buddsoddiad arall. Rydym yn bwriadu penu blaenoriaethau ar gyfer Cymru, ond bydd angen ystyried fframweithiau perthnasol hefyd ar lefelau rhanbarthol (e.e. cynlluniau datblygu strategol, cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol, ac ati) a lleol (e.e. cynlluniau datblygu lleol, ac ati).

Cafodd y meysydd blaenoriaeth yn yr ymgynghoriad hwn eu datblygu cyn themâu Llywodraeth y DU, ond maent wedi'u halinio'n agos (gweler y tabl isod).  Rydym felly yn disgwyl i'r Cynllun Buddsoddi Terfynol gael ei drefnu gydag un maes blaenoriaeth yn ffocysu ar seilwaith.  Ffocws yr ymgynghoriad hwn yw ar yr amcanion penodol sydd o dan y meysydd blaenoriaeth hynny.

| **Thema Cyllid Twf Lleol Llywodraeth y DU** | **Ymgynghoriad Cyllid Twf Lleol yng Nghymru Llywodraeth Cymru** |
|---|---|
| Cymorth i fusnesau | Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol |
| Cymorth sgiliau a gwaith ar gyfer twf | Cefnogi pobl i gael gwaith a gwella sgiliau |
| Galluogi seilwaith twf lleol | Seilwaith gwyrdd a defnyddio ynni yn effeithlon |
| | Seilwaith lleol yn gyrru economïau rhanbarthol |

Mae'r rhestr hir o amcanion strategol isod yn opsiynau o dan bob un blaenoriaeth buddsoddi yn yr ymgynghoriad hwn, sy'n adlewyrchu'r anghenion a'r cyfleoedd presennol yn ein heconomi a'n marchnad lafur. Rydym yn chwilio am safbwyntiau i gyfyngu'r ddewislen honno o opsiynau i ganolbwyntio'r cyllid sydd ar gael ar gyfer mwy o effaith gronnus. Hyd yn oed gyda set gulach o amcanion, bydd yr angen am flaenoriaethu a chydlynu cyllid sydd ar gael yn golygu na fydd pob gweithgaredd yn digwydd ym mhobman. Bydd gan bob rhanbarth anghenion a chyfleoedd lleol a rhanbarthol gwahanol, a bydd angen i bob un flaenoriaethu i wneud y mwyaf o effeithiau cronnus.

Mae meysydd blaenoriaeth yr ymgynghoriad hwn yn rhyngddibynnol a dylai gweithgarwch mewn un maes blaenoriaeth ategu un neu fwy o'r lleill. Rydym eisiau gweld portffolio cyflenwol o brosiectau sydd i gyd yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni ar gyfer rhanbarth, ochr yn ochr â buddsoddiadau eraill, felly mae'r cyfan yn fwy na swm ei rannau. Er enghraifft, gallai ffocws ar glwstwr penodol o fewn rhanbarth gynnwys sgiliau sector sy'n seiliedig ar anghenion, buddsoddi mewn capasiti ymchwil, a gwella safleoedd allweddol.

Bydd mwyafrif y Gronfa Twf Lleol yn cynnwys cyllid cyfalaf, gyda swm llai o gyllid refeniw ar gael. Er ein bod yn gobeithio y bydd adolygiadau gwariant yn y dyfodol yn cadarnhau cyllid yn y blynyddoedd i ddod, mae'n rhaid i ni gynllunio ar hyn o bryd ar sail y cyfnod tair blynedd y mae cyllid wedi'i gadarnhau.

## 2.1 Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol

Rydym am i fuddsoddiad sbarduno twf cynhyrchiant drwy gefnogi'r amodau cywir i entrepreneuriaid, busnesau newydd a sefydledig, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, dyfu, datblygu i fod yn fwy cynhyrchiol, a chreu swyddi o ansawdd uchel yng Nghymru a'u cadw yma[12]. Bydd buddsoddi mewn asedau, seilwaith a thechnoleg yn helpu i wella cynhyrchiant ar lefel cwmnïau, a all yn ei dro ddarparu'r sail ar gyfer twf swyddi a chyflogau i wella safonau byw, lleihau tlodi mewn gweithwyr, a rhoi hwb i wydnwch ledled Cymru.

Rydym am weld mwy o gwmnïau newydd yn ymddangos mewn meysydd sydd â'r potensial mwyaf ar gyfer twf, gan gynnwys mentrau cymdeithasol a chwmnïau sy'n cael eu rhedeg gan grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli. Mae cylch rheolaidd o fusnesau newydd a pherchnogion amrywiol yn hanfodol er mwyn cynnal economi ddeinamig sy'n croesawu arloesi ac yn cynnig cyfleoedd newydd i bobl.

Rydym am weld mwy o gwmnïau'n tyfu ac yn ehangu yng Nghymru er mwyn bod yn gystadleuol ledled y DU ac yn rhyngwladol. Mae hyn yn golygu edrych ar y rhwystrau i dwf ar gyfer y busnesau hynny sydd â'r potensial i dyfu a helpu i fynd i'r afael â diffygion yn y farchnad sy'n eu hatal rhag cymryd y camau hynny a chyrraedd y pwyntiau tyngedfennol hynny. Gall yr heriau amrywio rhwng busnesau, ond fel arfer mae'n cynnwys ehangu adeiladau, buddsoddi mewn cyfalaf, cael mynediad at gyllid, datblygu'r gweithlu neu allforio am y tro cyntaf.

Un rhwystr penodol yw lle mae diffygion yn y farchnad o ran cael gafael ar gyllid ar gyfer twf busnes. Mae daearyddiaeth, demograffeg a strwythur busnes i gyd yn ffactorau sy'n ei gwneud yn anoddach i wasanaethu Cymru'n fasnachol. Mae tystiolaeth yn dangos bod cyllid ad-daladwy yn darparu gwell gwerth am arian cyhoeddus drwy gynyddu'r posibilrwydd o ailgylchu manteision a chanlyniadau dros amser, gan ychwanegu effaith hirdymor[13].

Mae gweithgynhyrchu traddodiadol[14] yn dal i chwarae rhan bwysig yn economi Cymru, ond rydym am fachu ar gyfleoedd wrth inni fanteisio ar y pedwerydd chwyldro diwydiannol. Rydym am gyflymu'r newid technolegol, mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio, ac am weld mwy o fuddsoddiad mewn ymchwil, datblygu ac arloesi ym mhob sector. Mae angen i ni gynyddu ein capasiti a'n gallu ymchwil arbenigol yn y meysydd hynny lle mae gennym gryfderau gwirioneddol neu fantais gystadleuol, megis yr economi gylchol. Rydym am weld sefydliadau a busnesau ledled Cymru yn manteisio ar fwy o'r biliynau o gyfleoedd buddsoddi cystadleuol sydd ar gael drwy Lywodraeth y DU, asiantaethau eraill (e.e. Innovate UK / Ymchwil ac Arloesi yn y DU), ac yn rhyngwladol (e.e. Horizon Europe).

Mae angen inni wneud y gorau o gyfleoedd i flaenoriaethu clystyrau ac adeiladu ar alluoedd a chyfleoedd craidd Cymru, fel iechyd a bio-dechnoleg, gweithgynhyrchu

---

[12]Mae'r Contract Economaidd gyda Busnes Cymru, Busnes Cymdeithasol Cymru, Cymru'n Gweithio, a Banc Datblygu Cymru yn dangos ein hymrwymiad i ddarparu arweinyddiaeth glir a chymorth busnes. Y Contract Economaidd - Busnes Cymru
[13]Wales SME Access to Finance report Wales SME Access to Finance Report - 2025 | British Business Bank
Dyfodol gweithgynhyrchu i Gymru: ein taith tuag at Gymru 4.0 | LLYW.CYMRU

uwch, Technoleg Ariannol, yr economi gylchol neu ynni carbon isel. Mae hefyd angen i ni weld pob sector yn manteisio ar ddatblygiadau newydd ym maes deallusrwydd artiffisial (AI), data a thrawsnewid digidol a all helpu i gyfrannu at enillion cynhyrchiant yn y dyfodol[15].

**Amcanion strategol** (gweler yr atodiad Damcaniaeth Newid hefyd)

1. **Cynyddu nifer y busnesau newydd a chwmnïau deillio gyda'r potensial i dyfu sy'n cael eu creu, gan gynnwys canolbwyntio ar grwpiau a mentrau cymdeithasol sy'n cael eu tangynrychioli.**

2. **Mynd i'r afael â rhwystrau i dwf (e.e. ehangu, buddsoddi cyfalaf, allforio a denu buddsoddwyr) ar gyfer busnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol sydd â'r potensial i dyfu'n gyflym.**

3. **Mynd i'r afael â diffygion penodol yn y farchnad o ran cael gafael ar gyllid ad-daladwy i sefydlu a thyfu busnesau a mentrau cymdeithasol yng Nghymru.**

4. **Cynyddu lefelau buddsoddiad mewn ymchwil, datblygu ac arloesi, capasiti a chyfnewid gwybodaeth mewn busnesau a sefydliadau ymchwil, gan gynnwys ym meysydd fel deallusrwydd artiffisial, seiberddiogelwch, a thwf digidol a gwyrdd.**

**Defnyddio'r egwyddorion allweddol**

Bydd angen i Lywodraeth Cymru, llywodraeth leol, Busnes Cymru, Banc Datblygu Cymru, cynrychiolwyr busnes a phartneriaid allweddol eraill gytuno lle gall Cyllid Twf Lleol ychwanegu'r gwerth mwyaf at y dirwedd cymorth busnes bresennol ac osgoi darnio a dyblygu. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried cyllid refeniw cyfyngedig sydd ar gael o'r gronfa hon.

Byddai'r angen i ddenu cyllid ychwanegol a dysgu o'r hyn sy'n gweithio yn awgrymu bod angen blaenoriaethu benthyciadau neu gyllid ecwiti dros grantiau, a allai ganolbwyntio mwy ar fuddsoddiadau na fyddai busnesau'n eu gwneud fel arall.

Bydd y cyllid sydd ar gael yn golygu ei bod yn hanfodol sicrhau trosoledd a mynediad ehangach at fuddsoddiad ehangach i fynd i'r afael â'r heriau a nodwyd. Er enghraifft, dylid cymryd gofal wrth dargedu buddsoddiad mewn capasiti ymchwil fel ei fod yn gwella mynediad at fuddsoddiadau eraill (e.e. cyllid cystadleuol neu ddenu buddsoddiad preifat).

Efallai y bydd disgwyl i fuddsoddiad ymchwil, datblygu ac arloesi ganolbwyntio hefyd ar weithgarwch sy'n agos at y farchnad, fel cydweithio diwydiannol, mabwysiadu technoleg newydd, neu hyrwyddo lledaenu arloesi ar draws sectorau ac o fewn

---

[15] Cymru'n arloesi, creu Cymru gryfach, decach, a gwyrddach: cynllun cyflawni arloesedd [HTML] | LLYW.CYMRU

iddynt, fel bod manteision buddsoddi yn cael eu trosi'n gynhyrchiant ac yn dwf busnes.

**Cwestiwn 4: Pa un o'r amcanion strategol hyn, neu eraill, fyddech chi'n blaenoriaethu i ddarparu busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol?**

### 2.2 Cefnogi pobl i gael gwaith a chynyddu eu sgiliau

Rydym am fynd i'r afael â bylchau yn y cymorth sydd ei angen i helpu pobl i gael gwaith cynaliadwy o ansawdd da, cael cyflog teg amdano, ac i baratoi'r gweithlu ar gyfer heriau'r dyfodol.

Mae diweithdra ac anweithgarwch economaidd yn creu anghydraddoldeb sylweddol. Mae tystiolaeth gref i ddangos bod cyfnodau o anweithgarwch economaidd a diweithdra yn gynnar yn eich bywyd yn gallu cael effaith niweidiol ar amrywiol ganlyniadau yn nes ymlaen mewn bywyd. Mae cyfnodau dros flwyddyn o hyd yn arbennig o niweidiol i bobl ifanc. Gall gweithwyr hŷn hefyd wynebu rhwystrau i ddychwelyd i'r gwaith ar ôl colli eu swyddi.

Rydym am atal a gwrthdroi'r cynnydd mewn anweithgarwch economaidd rydym wedi'i weld ers 2019 ac ymateb i her salwch tymor hir. Mae anweithgarwch economaidd yn fwy cyffredin ymysg grwpiau fel pobl anabl, pobl ifanc, oedolion hŷn, ac unigolion â chyrhaeddiad addysgol is. Mae hyn yn effeithio ar ddosbarthiad incwm, cyfoeth a chyfleoedd.

Mae ffactorau cymhleth yn gyfrifol am y cyfraddau anweithgarwch economaidd, ond rydym yn gwybod fod anweithgarwch economaidd yn cael effaith niweidiol ar incwm aelwydydd, yn cynyddu cyfraddau tlodi, sy'n sylweddol uwch mewn aelwydydd lle nad oes unrhyw oedolion yn gweithio. Gall anweithgarwch economaidd arwain at economi llai cydnerth. Mae gweithlu Cymru'n crebachu, gan arwain at brinder staff, gan gynnwys mewn rhai sectorau lle rhagwelir y bydd y galw'n cynyddu, fel iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydym eisiau edrych lle mae bylchau yn y ddarpariaeth a gweithio ochr yn ochr â rhaglenni presennol fel cymorth cyflogaeth y Ganolfan Byd Gwaith, ein Rhaglen Cymorth Cyflogadwyedd newydd o 2027 ymlaen, a'n Gwarant Pobl Ifanc[16], sy'n cynnig cymorth i bob person ifanc 16-24 oed naill ai barhau mewn addysg, derbyn hyfforddiant, dechrau prentisiaeth, dechrau gweithio, neu sefydlu eu busnes eu hunain.

Er mwyn canolbwyntio ar leihau anweithgarwch economaidd bydd angen gwella cyfleoedd, yn enwedig ymysg pobl ifanc, pobl anabl, a'r rheini lle gallai diweithdra eisoes fod wedi ymwreiddio yn eu teuluoedd. Mae'n hanfodol rhoi blaenoriaeth i iechyd a lles, a chyflogaeth â chymorth a gwasanaethau hyfforddi swyddi, er mwyn helpu mwy o bobl i ystyried dechrau gweithio, dychwelyd i waith ac aros mewn cyflogaeth. Bydd gwella canlyniadau'r farchnad lafur i fenywod a phobl o leiafrifoedd ethnig yn sicrhau fod pawb yn cael y cyfle gorau i ddod o hyd i waith teilwng a theg gyda rhagolygon tymor hir, a'i gadw.

Bydd yn hanfodol cyflawni canlyniadau meddalach a mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth bresennol i gefnogi'r rheini sydd leiaf tebygol o chwilio am waith, er mwyn i'r grwpiau hyn allu dod yn nes at y farchnad lafur neu symud ymlaen i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Byddwn yn annog defnyddio seilwaith presennol ar

[16] Y Warant Pobl Ifanc | LLYW.CYMRU

gyfer dysgu a darparu yn y gymuned ac yn cysoni cymorth â'r dirwedd polisi sy'n esblygu yng Nghymru a'r DU.

Er mwyn gwneud y newidiadau sylweddol hyn, a sicrhau fod pobl yn gallu aros mewn gwaith a gwneud cynnydd, bydd angen cymorth ac anogaeth ar fusnesau i wneud gwaith yn well, yn decach ac yn fwy diogel. Er enghraifft, efallai y bydd angen trefniadau mwy hyblyg ar bobl anabl neu bobl â salwch cronig i gael gwaith, i aros mewn gwaith ac i ffynnu mewn swydd.

Mae cysylltiad agos rhwng sgiliau uwch a chynhyrchiant uwch ac mae eu hangen ar gyfer cyfran gynyddol o swyddi. Mae'n bwysig cael gweithlu medrus, symudol ac arloesol er mwyn cyflawni tasgau'n fwy effeithlon ac addasu i heriau a chyfleoedd newydd. Gellid cyflawni hyn drwy ehangu dysgu hyblyg a phersonol i bobl mewn gwaith a'r tu allan i waith er mwyn gwella eu sgiliau, dod o hyd i waith neu ailhyfforddi. Mae unigolion â chymwysterau a sgiliau lefel uwch yn fwy tebygol o fod mewn swydd barhaol, o gael cyflog uwch ac o gynyddu eu cyflog – yn enwedig ymysg unigolion o ardaloedd difreintiedig.

Mae sgiliau hanfodol hefyd yn hollbwysig os ydym am helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd. Mae llawer i'w ennill os gallwn helpu i fynd i'r afael â bylchau mewn llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol, er mwyn i unigolion allu manteisio ar gyfleoedd gwaith newydd a sicrhau cyflogau uwch. Er enghraifft, gwyddom mai sgiliau digidol sylfaenol yn aml yw'r cam cychwynnol i symud ymlaen gyda chyflogaeth a byddwn yn ystyried sut y gellir defnyddio Isafswm Safon Byw Digidol i sicrhau nad oes unrhyw aelwyd yng Nghymru yn is na'r trothwy. Dylem nodi cyfleoedd i uwchsgilio a pharu pobl ag anghenion cyflogwyr a diwydiant (gan gynnwys meysydd twf fel datgarboneiddio, technoleg ddigidol a deallusrwydd artiffisial), sy'n gallu helpu unigolion i gamu ymlaen a thyfu eu busnes.

**Amcanion strategol** (gweler yr atodiad Damcaniaeth Newid hefyd)

1. **Lleihau lefelau anweithgarwch economaidd, yn enwedig ymysg pobl ifanc, pobl anabl, menywod a phobl o gefndiroedd ethnig leiafrifol.**

2. **Gwella'r broses o gadw a datblygu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gwaith, gan gynnwys heriau cyflogaeth ansicr a chyflogau isel.**

3. **Gwella lefelau cymwysterau a/neu sgiliau, gan ganolbwyntio ar sgiliau sylfaenol ac uwch.**

4. **Cymorth a hyfforddiant sgiliau wedi'u teilwra sy'n seiliedig ar alw ar gyfer sectorau â photensial o dwf uchel neu sectorau o bwysigrwydd rhanbarthol.**

**Defnyddio'r egwyddorion allweddol**

Bydd maint yr her a'r cyllid sydd ar gael yn golygu ychwanegu gwerth at y ddarpariaeth bresennol drwy nodi grwpiau targed nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol a nodi lle gall cyllid wneud gwahaniaeth go iawn neu roi cynnig ar rywbeth newydd.

Mae sgiliau'n bwysig yn gyffredinol, ond efallai y bydd ffocws posibl ar sgiliau lefel uwch a sgiliau sy'n seiliedig ar alw mewn sectorau sydd â thwf uchel posibl i gefnogi twf cynhyrchiant a swyddi yn y dyfodol, yn ogystal â sgiliau sylfaenol ar gyfer grwpiau targed penodol neu leoedd i helpu mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd.

Dylid ystyried cynhwysiant wrth ddylunio ymyriadau, gan gynnwys cynhwysiant digidol, i sicrhau bod cyfleoedd yn hygyrch i bawb, yn enwedig lle gall hyn fod yn rhwystr i rai cymunedau neu leoedd.

Bydd angen i bob ymyriad o dan y flaenoriaeth hon ddangos sut maent yn cyd-fynd â'r ecosystem sgiliau a chyflogadwyedd ehangach, yn enwedig sut maent yn mynd i'r afael â bwlch penodol neu'n gwneud rhywbeth arloesol i ychwanegu gwerth yn hytrach na dyblygu'r ddarpariaeth honno.

Rydym yn disgwyl y bydd y flaenoriaeth hon yn denu'r rhan fwyaf o'r cyllid refeniw sydd ar gael yn y Gronfa Twf Lleol, gyda blaenoriaethau eraill yn disgwyl canolbwyntio mwy ar gyfalaf. Bydd cyfleoedd hefyd ar gyfer buddsoddiad cyfalaf ar draws y flaenoriaeth hon, a all gefnogi'r amcanion yn anuniongyrchol pan fydd yn rhan o gynllun clir ar gyfer y rhanbarth.

**Cwestiwn 5: Pa rai o blith yr amcanion strategol hyn, neu eraill, fyddech chi'n eu blaenoriaethu i gefnogi pobl i weithio a chynyddu sgiliau?**

## 2.3 Seilwaith gwyrdd ac effeithlonrwydd ynni

Yr argyfwng hinsawdd yw her fyd-eang ein hoes ni. Gall pontio teg i economi di-garbon gynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad economaidd glân ac effeithlon o ran ynni, swyddi o ansawdd a buddion yn y farchnad fyd-eang, yn ogystal â buddion eangach i'n hamgylchedd, ein hiechyd, ein cyfalaf naturiol, a'n gwasanaethau ecosystemau. Mae Cymru eisoes yn y broses o bontio[17], yn lleihau lefel ei hallyriadau[18] ac yn datgloi cyfleoedd ar gyfer datblygiad economaidd glân. Mae angen i ni sicrhau bod y llwybr rydym yn ei ddilyn yn lleihau'r risgiau i'r rheini sydd eisoes dan anfantais economaidd-gymdeithasol, ac rydym yn rheoli'r effaith ar ddiwydiannau yr effeithir arnynt. Rydym yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â methiannau yn y farchnad a nodi cyfleoedd economaidd a all helpu i leihau allyriadau carbon a mynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Mae angen cynyddu cynhyrchiant pŵer o ffynonellau ynni adnewyddadwy a datblygu atebion storio[19] ar raddfa fawr os ydym am ddiwallu'r hyn sy'n cyfateb i 100% o'n defnydd blynyddol o drydan o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2035 a pharhau i gadw i fyny â'r defnydd ar ôl hynny. Bydd angen cynllunio camau gweithredu yn y maes hwn yn ofalus, gan gynnwys partneriaid fel Cyfoeth Naturiol Cymru o'r cychwyn cyntaf ac asesu capasiti'r Grid Cenedlaethol lle bo hynny'n berthnasol. Mae capasiti y Grid Cenedlaethol wedi bod yn llawn ers blynyddoedd ac, er gwaethaf cynlluniau ar gyfer y 'Great Grid Upgrade'[20], efallai y bydd angen i ni drafod cynlluniau gyda'r Grid Cenedlaethol i sicrhau bod capasiti ar gael.

Bydd datgarboneiddio tai yn helpu i gyrraedd ein targedau allyriadau a gall hefyd helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau incwm ac economaidd drwy leihau costau pŵer a gwresogi a gwella iechyd ac amodau byw, yn enwedig ar gyfer aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd ac yn agored i niwed, gan sbarduno cyfleoedd economaidd i fusnesau a mentrau cymdeithasol ym mhob cymuned[21]. Mae ffyrdd y gellir lleihau allyriadau ynni tai drwy newid ymddygiad, effeithlonrwydd ynni a mesurau gwresogi carbon isel, gan gynnwys pympiau gwres.

Rydym am i gymunedau elwa'n uniongyrchol o brosiectau ynni yn eu hardal, gyda tharged i sicrhau fod o leiaf 1.5 GW o gapasiti ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth leol erbyn 2035. Rydym hefyd am helpu cymunedau i gael eu pweru gan ynni sydd wedi'i gynhyrchu'n lleol fel rhan o system ynni hyblyg a chlyfar. Bydd cadw'r gwaith cynhyrchu a'r buddion yn agosach i'w gilydd yn lleihau costau trosglwyddo ynni dros bellter hir, yn lleihau'r angen am linellau pŵer newydd ac yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer perchnogaeth leol.

---

[17]Mae Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021 i 2025) | LLYW.CYMRU yn cynnwys polisïau a chynigion ar gyfer cyflawni'r gyllideb garbon a gosod y sylfeini ar gyfer datgarboneiddio yn y dyfodol. Mae'r Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net yn nodi camau gweithredu i nodi a darparu sgiliau i gefnogi sero net.

[18] Gweler Ffynonellau Allyriadau Cymru 2021

[19] Mae storio'n debygol o fod ar ffurf storfa fatri wasgaredig ac opsiynau storio sy'n para yn hirach. Bydd hydrogen gwyrdd hefyd yn cynnig opsiynau newid tanwydd i bartneriaid diwydiannol.

[20] The Great Grid Upgrade | Powering The Things You Love

[21] Er enghraifft, mae'r *Rhaglen Cartrefi Clyd* yn ymyrryd mewn cartrefi sy'n dlawd o ran tanwydd i leihau biliau ac allyriadau.

Mae cysylltedd rhwng pobl, busnesau a marchnadoedd yn hanfodol i hyrwyddo clystyrau twf uchel, gan gyflawni manteision cydgrynhoi a chynhyrchu cyfnewidfa ar gyfer pobl a syniadau. Mae Cymru'n fwy prin ei phoblogaeth na rhannau eraill o'r DU, felly mae ganddi fwy i'w ennill o wella cysylltedd. Mae angen i ni hefyd leihau'r allyriadau sy'n gysylltiedig â'r gweithgarwch economaidd hanfodol hwn ac annog teithio llesol ymhellach. Gallwn wneud hyn drwy gamau gweithredu i gefnogi mwy o lwybrau cerdded a beicio, defnyddio gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, ac integreiddio'r gwasanaethau hyn yn well, gan leihau'r ddibyniaeth ar gerbydau modur preifat. Mae cyfleoedd hefyd i elwa o rwydweithiau digidol ledled y DU ac yn rhyngwladol drwy well cysylltedd digidol.

**Amcanion strategol** (gweler yr atodiad Damcaniaeth Newid hefyd)

1. **Cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy a charbon isel, yn enwedig pan ei fod dan berchnogaeth leol ac yn cyflawni yn erbyn blaenoriaethau rhanbarthol.**

2. **Cefnogi seilwaith trafnidiaeth a chysylltedd digidol carbon isel lle mae'n cefnogi blaenoriaethau twf rhanbarthol.**

3. **Cefnogi buddsoddiad cyfalaf, lle mae diffyg yn y farchnad, i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a gwella effeithlonrwydd ynni ym maes tai.**

**Defnyddio'r egwyddorion allweddol**

Gall buddsoddiadau cyfalaf o dan y flaenoriaeth hon fod yn gymhleth a bydd angen eu hystyried yn gynnar er mwyn eu cyflawni o fewn tair blynedd. Bydd hyn yn gofyn am gydlynu gweithgareddau'n gadarn rhwng y sector cyhoeddus, busnesau a chymunedau lleol ar bob lefel.

Mae Cynlluniau Datblygu Strategol yn cael eu datblygu gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig a gallant ddarparu sylfaen dystiolaeth gadarn a chefnogi'r gwaith o flaenoriaethu buddsoddiadau o bwysigrwydd rhanbarthol.

Gellir cefnogi'r gwaith o flaenoriaethu prosiectau ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni ar lefel ranbarthol drwy strategaethau ynni rhanbarthol[22] presennol a chynlluniau ynni ardal leol sy'n darparu sylfaen dystiolaeth gref i lywio'r gwaith o flaenoriaethu ymyriadau.

Gall Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, sy'n cael eu datblygu gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig, ddarparu sylfaen dystiolaeth a chefnogi'r gwaith o flaenoriaethu

[22] Rydym wedi gweithio gyda phedwar rhanbarth yng Nghymru i ddatblygu sylfaen dystiolaeth, ac mae'r cyfleoedd a'r heriau a ddisgwylir wrth i'r sector ynni newid i sero net wedi'u nodi mewn pedair Strategaeth ynni ranbarthol | LLYW.CYMRU. Cefnogir y rhain gan Gynlluniau Ynni Ardal Leol awdurdodau lleol, sy'n cynnwys data manylach am y mathau o brosiectau posibl a'u lleoliad. Gyda'i gilydd, mae hyn yn darparu sylfaen dystiolaeth gadarn er mwyn i ranbarthau ddatblygu portffolios o brosiectau.

buddsoddiadau o dan arweiniad lleol mewn mentrau trafnidiaeth carbon isel rhanbarthol allweddol.

Bydd mynd i'r afael â diffygion yn y farchnad ac ychwanegu gwerth hefyd yn golygu ystyried lle gellir targedu unrhyw fuddsoddiad mewn effeithlonrwydd ynni tai orau gan ystyried lle mae cwmnïau masnachol yn gweithredu a lle mae cynlluniau presennol ar waith.

**Cwestiwn 6: Pa rai o blith yr amcanion strategol hyn fyddech chi'n eu blaenoriaethu i yrru cyfleoedd o ynni carbon isel a chysylltedd ar gyfer twf a lleihau anghydraddoldebau?**

## 2.4 Seilwaith lleol i yrru economïau rhanbarthol

Mae gweithlu iach, hapus a chymunedau cysylltiedig, cryf a gwydn yn asedau economaidd sydd o fudd i bawb. Bydd angen buddsoddiad mewn seilwaith lleol ar economi gryfach, tecach a gwyrddach sy'n galluogi pobl i gymryd rhan yn yr economi leol, ranbarthol a chenedlaethol. Rydym eisiau sicrhau bod gan gymunedau lle a phobl y gwytnwch, y cysylltedd a'r strwythurau sydd eu hangen arnynt, fel nad oes neb yn cael ei adael ar ôl. Mae gan Gymru gymunedau cryf y gallwn eu cefnogi fel bod pobl yn byw bywydau hir, hapus a chyflawni eu potensial i gyfrannu'n cynhyrchiol i'n heconomi a'n cymdeithas.

Mae anghydraddoldebau mewn canlyniadau iechyd yn cael eu gyrru gan anghydraddoldeb economaidd, ac mae rhwystrau yn parhau i atal pobl rhag cymryd rhan mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant ac rhag cyflawni eu potensial llawn. Mae rhai pobl yn dal i fethu â chael mynediad at wasanaethau digidol, tra gall mynediad cyfyngedig i drafnidiaeth gyhoeddus neu deithio llesol effeithio ar fynediad at ofal, gwasanaethau neu gyflogaeth, gan greu rhwystrau i gynhyrchiant a thwf.

Mae tystiolaeth i ddangos bod gan leoedd â chyfalaf cymdeithasol cryfach gyrhaeddiad addysgol uwch, troseddu is a thwf[23] economaidd cyflymach. Efallai y bydd manteision wrth adeiladu ac ailadeiladu'r seilwaith cymdeithasol mewn cymunedau trefol, gwledig, ôl-ddiwydiannol, dinasoedd ac arfordirol ledled Cymru.

Rydym eisiau cysylltu pobl ag asedau yn eu cymuned, a sicrhau bod dinasyddion a gweithwyr yn cael mynediad cyfartal at gyflogaeth a nwyddau a gwasanaethau o safon, gan fod y rhain yn benderfynyddion allweddol o sicrhau iechyd[24] meddwl a chorfforol da. Bydd yn bwysig canolbwyntio'n arbennig ar ddinasyddion sydd fwyaf mewn perygl o anfantais economaidd-gymdeithasol. Yn yr un modd, mae buddsoddi mewn cyfleoedd economaidd cynaliadwy i bobl ifanc, ble bynnag y maent yn byw, yn golygu cyfleoedd i gael gwaith teg o safon, ni fydd yn golygu bod angen iddynt 'symud i ffwrdd', gan greu manteision economaidd.

Mae gan ganol trefi, diwylliant, treftadaeth a safleoedd twristiaeth hefyd rannau i'w chwarae. Gall canol ein trefi fod yn lleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a diwylliannol, yn ogystal â thrafodiadau economaidd a masnachol. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o ganol trefi wedi cael eu heffeithio gan gau safleoedd manwerthu, cynnydd mewn siopa ar-lein a phobl sy'n gweithio gartref, pob ffactor yn effeithio ar nifer yr ymwelwyr. . Mae'r rhain yn heriau a welir ledled Cymru a'r DU.

Rydym am ychwanegu gwerth at gynlluniau a buddsoddiadau presennol i'n helpu i esblygu canol trefi yn ganolfannau bywiog o amgylch byw, gweithio, dysgu, hamdden a lletygarwch a all drosoli buddsoddiad ychwanegol yn ein cymunedau, gan gefnogi bioamrywiaeth, lles a thwf economaidd cynhwysol.

Gall creu seilwaith o ansawdd uchel, datblygu safleoedd buddsoddi allweddol, canolfannau gweithio o bell, gwell defnydd o fannau cymunedol presennol, asedau

[23] Social-Capital-2025_The-Hidden-Wealth-of-Nations.pdf
[24] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-09/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf

cymunedol newydd (yn enwedig seilwaith gwyrdd), gwasanaethau cyhoeddus mwy hygyrch, a chysylltedd integredig gwell (trafnidiaeth ddigidol a thrafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol, gan gynnwys trawsffiniol) helpu i leihau anghydraddoldebau economaidd, rhoi hwb i'n heconomi a iechyd ein cymdeithas.

Gall buddsoddi mewn seilwaith lleol gefnogi'r economi ranbarthol ac yn ei dro economïau Cymru a'r DU. Rydym am sicrhau bod buddsoddiadau'n canolbwyntio ar ledaenu buddion i bob rhan o ranbarth, yn enwedig i'r ardaloedd hynny sy'n wynebu'r rhwystrau economaidd mwyaf.

**Amcanion strategol** (gweler yr atodiad Damcaniaeth Newid hefyd)

1. **Datblygu safleoedd ac adeiladau allweddol sy'n bwysig ar gyfer twf rhanbarthol ac mewn sectorau twf a flaenoriaethir yn rhanbarthol lle mae methiant yn y farchnad**

2. **Gwella seilwaith economaidd lleol, gan gynnwys trafnidiaeth, cysylltedd digidol, ac asedau cymunedol i gefnogi cymunedau cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig, arfordirol, dinas a threfol.**

3. **Buddsoddi mewn asedau treftadaeth, twristiaeth, neu ddiwylliannol â blaenoriaeth i gefnogi uchelgeisiau twf rhanbarthol a chyfleoedd lleol.**

**Defnyddio'r egwyddorion allweddol**

Mae gwahanol gynlluniau cymunedol ac adfywio a gwahanol gynlluniau lleol a rhanbarthol eisoes ar waith. Byddem yn disgwyl i fuddsoddiadau yn y flaenoriaeth hon allu dangos sut y gallant ychwanegu gwerth at y cynlluniau hynny.

Yn benodol, byddem yn disgwyl i Trawsnewid Trefi a'r Cynlluniau Creu Lleoedd cysylltiedig ddarparu fframwaith presennol i gefnogi blaenoriaethu lleol. Er enghraifft, gellid blaenoriaethu prosiectau o bwysigrwydd rhanbarthol o fewn y cynlluniau hynny.

Gellid defnyddio cyllid felly ochr yn ochr â chyllid Llywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol, fel Trawsnewid Trefi neu debyg, lle mae'n amlwg yn ychwanegu gwerth ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Byddem yn disgwyl i gynigion weithio gyda chynlluniau creu lleoedd a threfniadau llywodraethu presennol i leihau cymhlethdod a dyblygu.

**Cwestiwn 7: Pa un o'r amcanion strategol hyn fyddech chi'n blaenoriaethu i dargedu buddsoddiad mewn seilwaith lleol i yrru economïau rhanbarthol?**

# ADRAN 3: MODEL PONTIO A DARPARU

## 3.1 Rheoli'r broses bontio i'r model Cyllid Twf Lleol

Nid yw Cyllid Twf Lleol yn barhad o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Bydd yn canolbwyntio fwy ar genhadaeth twf Llywodraeth y DU a'n blaenoriaethau i gefnogi twf cynhyrchiant a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd. Mae llinyn aur yn rhedeg o Gynllun ar gyfer Newid Llywodraeth y DU, drwy Strategaeth Ddiwydiannol y DU, drwy Genhadaeth Economaidd Llywodraeth Cymru a'r flaenoriaeth ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol, ac uchelgeisiau Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac awdurdodau lleol i gefnogi swyddi a thwf.

Bydd blaenoriaethu'n digwydd ar bob lefel. Mae Llywodraeth y DU wedi gosod y paramedrau eang a byddwn yn blaenoriaethu ymhellach pa amcanion penodol sy'n adlewyrchu’r anghenion a'r cyfleoedd yng Nghymru orau. Byddwn yn mireinio ein cynlluniau ymhellach gyda llywodraeth leol a phartneriaid yng Nghymru, ac rydym yn anelu at symud i system (sy’n cael ei disgrifio yn yr adrannau nesaf) ble y bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gosod blaenoriaethau pellach o fewn y cynlluniau hyn, gan nodi anghenion a chyfleoedd rhanbarthol a lleol.

Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn cymryd amser i’w sefydlu ac nid ydym am weld bwlch yn y buddsoddiad hwn mewn swyddi a thwf, sydd â galw mawr amdano. Bydd hefyd rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y mathau o weithgarwch y byddem am eu hariannu drwy'r Gronfa Twf Lleol â'r rheini sy'n cael eu gwneud drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mae rhai prosiectau o dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth ar lefel ranbarthol a lleol, gan gynnwys buddsoddiadau mewn cyflogadwyedd a sgiliau. Nid ydym am eu gweld yn methu na'r capasiti a ddatblygwyd dros y blynyddoedd diwethaf yn cael eu colli lle maent yn darparu gwerth ychwanegol clir a gwerth am arian.

Lle gallwn nodi ar y cyd yr ymyriadau hynny sy'n ychwanegu gwerth, nad ydynt yn dyblygu darpariaeth bresennol neu ddarpariaeth arfaethedig, ac sy'n cyd-fynd â'n Cynllun Buddsoddi ar gyfer y Gronfa Twf Lleol, rydym am edrych ar sut y gallwn gadw'r capasiti hwnnw. Byddwn yn gweithio gyda llywodraeth leol (drwy CLlLC, arweinwyr gweinyddol rhanbarthol y Gronfa Ffyniant Gyffredin, awdurdodau lleol a Cyd-bwyllgorau Corfforedig), am weddill 2025, i nodi'r prosiectau blaenoriaeth sy'n hanfodol i gynnal capasiti a pharhad busnes lle mae'r amodau hyn yn cael eu bodloni.

Er mwyn cyflawni hyn dros y flwyddyn gyntaf, rydym yn disgwyl y bydd angen defnyddio strwythurau a phensaernïaeth bresennol i gyflawni'r SPF, gan gynnwys tynnu ar arbenigedd ar draws llywodraeth leol a phartneriaid eraill. Ein blaenoriaeth fydd cadw capasiti a gallu mewn meysydd sy'n cefnogi amcanion Cyllid Twf Lleol tra bod cynlluniau rhanbarthol yn cael eu datblygu.

Gyda phartneriaid mewn sectorau eraill, byddwn hefyd yn edrych ar eu hanghenion o ran capasiti, os oes ganddynt gyfraniad sylweddol i'w wneud wrth gyflawni amcanion strategol Cynllun Buddsoddi'r Gronfa Twf Lleol. Bydd y gwaith y byddwn

yn ei wneud gyda llywodraeth leol a’n partneriaid yn ein galluogi i osod sylfaen gadarn o fuddsoddiadau integredig sydd wedi'u cynllunio'n dda yn gynnar yn y broses.

Byddwn yn ceisio cytuno â llywodraeth leol ar y dull pontio, i gwmpasu deuddeng mis cyntaf y rhaglen cyn diwedd 2025. Bwriad hyn yw rhoi'r hyder i awdurdodau lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig gadw ac adeiladu capasiti yn yr ardaloedd cywir. Ochr yn ochr â llywodraeth leol, byddwn yn adolygu'r cynnydd ar ôl chwe mis i sicrhau bod unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg yn cael eu datrys ac yn ystyried cynlluniau ar gyfer yr ail a'r drydedd flwyddyn.  Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau ein bod yn ddigon hyblyg i gyflawni'r dull hwn a'u nodi yn ein Cynllun Buddsoddi ar gyfer Cyllid Twf Lleol.

**Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig hwn o reoli'r newid rhwng y Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chyllid Twf Lleol yng Nghymru neu a oes gennych chi unrhyw farn bellach?**

## 3.2 Dull aml-haenog: cenedlaethol, rhanbarthol a lleol

Mae gan Gyllid Twf Lleol ffocws gwahanol o gymharu â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a bydd yn targedu buddsoddiad ar yr hyn sy'n sbarduno twf cynhyrchiant a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd. Rydym yn disgwyl iddo ganolbwyntio ar y rhanbarth a chael ei gyflawni'n lleol.  Nid oes disgwyl iddo ddyblygu gweithgarwch sy'n cael ei ddarparu gan raglen Pride in Place Llywodraeth y DU. Bydd hefyd yn fwy dwys o ran cyfalaf, fydd yn golygu gwahanol gymysgfa o fuddsoddiadau o gymharu â rhaglenni megis y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Gan ddysgu gwersi o raglenni blaenorol yr UE, arferion gorau rhyngwladol o'n gwaith gyda'r OECD, gwersi o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, a'n gwaith blaenorol gyda phartneriaid ar y Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru, rydym am roi dull gweithredu ar waith sy'n sicrhau bod cynllunio, blaenoriaethu a chyflawni yn digwydd ar y lefel fwyaf priodol. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu ein cytundeb â llywodraeth leol fel y nodir yn ein Cytundeb Partneriaeth Strategol.

Llywodraeth Cymru fydd yn atebol i Lywodraeth y DU am y gwaith cyffredinol o gydlynu a chyflawni Cronfa Twf Lleol Cymru gyfan. Bydd hyn yn cynnwys perfformiad cyffredinol yn erbyn amcanion sy'n cyfrannu at nodau'r DU gyfan. Bydd Llywodraeth Cymru'n adrodd i'r Senedd ar berfformiad y Gronfa Twf Lleol yng Nghymru ac yn adrodd i Lywodraeth y DU drwy broses adolygu flynyddol.  Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu bwrdd cynghori o bartneriaid ledled Cymru i roi cyngor i Lywodraethau'r DU a Llywodraeth Cymru ar y Cyllid Twf Lleol

Gan weithio gyda llywodraeth leol a phartneriaid ledled Cymru, bydd ein Cynllun Buddsoddi yn nodi'r amcanion cenedlaethol, y blaenoriaethau buddsoddi, y trefniadau llywodraethu a monitro. Bydd Llywodraeth Cymru yn cydlynu'r gwaith o gynllunio ymyriadau cenedlaethol, lle rydym yn cytuno gyda phartneriaid mai dyna'r dull mwyaf addas.  Bydd ymyriadau cenedlaethol hefyd yn cynnwys trefniadau cyflawni lleol.

Mae cryfhau ein rhanbarthau yn sbardun allweddol ar gyfer twf economaidd. Yn dilyn y broses bontio, rydym yn cynnig dyrannu'r rhan fwyaf o'r cyllid sydd ar gael i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.  Byddem yn rhyddhau y cyllid hwn ar sail  cynllun cyflenwi rhanbarthol all arwain at  bortffolio o brosiectau ar waith sy'n diwallu eu hanghenion a'u cyfleoedd rhanbarthol a lleol orau. Byddwn yn gweithio gyda Cyd-bwyllgorau Corfforedig a llywodraeth leol fel bod modd sefydlu hyn cyn diwedd y cyfnod pontio o ddeuddeng mis.  Byddwn yn gweithio gyda llywodraeth leol i adolygu cynnydd wedi cyfnod pontio o chwe mis.  Sefydlwyd Cyd-bwyllgorau Corfforedig i ganiatáu cydweithio haws, cyflymach a mwy effeithiol ar lefel rhanbarthol lle mae hynny'n gwneud synnwyr. Mae'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cynnig fframwaith cydlynol, cyson a reolir yn ddemocrataidd ar gyfer cydweithio ar lefel rhanbarthol a gall osgoi dyblygu ar draws y rhanbarth.  Gall Cyd-bwyllgorau Corfforedig helpu hefyd i integreiddio cyllid gyda datblygiad economaidd ehangach, gan gynnwys  Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf ac Ardaloedd Buddsoddi.

Bydd cyflawni'n lleol yn allweddol i gynlluniau cenedlaethol a rhanbarthol. Ein nod yw sicrhau bod buddsoddiadau'n ategu ei gilydd, yn lleihau darnio, ac yn creu arbedion

effeithlonrwydd i gefnogi twf cynhyrchiant a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd ledled Cymru.

Byddwn yn gwreiddio tryloywder ac yn ceisio cyhoeddi gwybodaeth a data ar ein cynnydd yn rheolaidd. Byddwn yn dod ag amrywiaeth eang o bartneriaid a Llywodraethau'r DU a Chymru at ei gilydd, gan sefydlu bwrdd cynghori Cymru gyfan i lywio'r ddarpariaeth.

Mae ein disgwyliadau presennol ar gyfer cyfrifoldebau llywodraethu arfaethedig ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol wedi eu nodi isod.

**Llywodraeth y DU**

- yn gosod nodau strategol ar gyfer Cronfa Twf Lleol y DU, gan gynnwys themâu eang
- yn cytuno ar y Cynllun Buddsoddi tair blynedd i Gymru a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru
- trosglwyddo cyllid ar gyfer Cyllid Twf Lleol Cymru i Lywodraeth Cymru yn flynyddol
- monitro a gwerthuso cyllid twf lleol yn gyffredinol ar lefel ledled y DU
- cynnal adolygiad blynyddol gyda Llywodraeth Cymru o'r Gyllid Twf Lleol yng Nghymru cyn rhyddhau cronfeydd blynyddol
- rhan o'r bwrdd cynghori i gyflwyno'r Cyllid Twf Lleol yng Nghymru
- cyfranogiad parhaus mewn hyrwyddo'r cronfeydd yng Nghymru (e.e. cyhoeddusrwydd)

**Llywodraeth Cymru**

- mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol am berfformiad a gwerthuso'r Cyllid Twf Lleol yng Nghymru ac adrodd blynyddol i Lywodraeth y DU
- yn gweithio gyda llywodraeth leol i ddatblygu trefniadau pontio ar gyfer y flwyddyn gyntaf
- yn darparu cymorth i helpu i gydlynu a blaenoriaethu ar draws y rhanbarthau ac yn genedlaethol i sicrhau cysondeb
- blaenoriaethu buddsoddiadau ar lefel genedlaethol (Cymru), gan weithio gyda phartneriaid
- yn gweithio gyda Cyd-bwyllgorau Corfforedig, i gytuno ar drefniadau ôl-bontio yng nghyd-destun Cynllun Buddsoddi i Gymru
- trosglwyddo cyllid i gyrff atebol perthnasol i gyflawni cynlluniau y cytunwyd arnynt (e.e. cyrff llywodraeth leol perthnasol)
- yn darparu goruchwyliaeth o gyflawni gan gyrff atebol i sicrhau cynnydd yn erbyn canlyniadau a gwerth am arian

Cyd-bwyllgorau Corfforedig **(bydd y brif rôl ar ôl pontio)**

- darparu arweinyddiaeth wleidyddol a gwneud penderfyniadau atebol yn y rhanbarth
- datblygu gallu a chapasiti llywodraethu ar lefelau rhanbarthol a lleol

- sicrhau bod trefniadau partneriaeth cynrychioliadol yn llywio cynllunio a chyflawni
- datblygu cynllun cyflawni rhanbarthol tair blynedd yn erbyn gweledigaeth ddeng mlynedd ar gyfer y rhanbarth gyda phartneriaid, cymunedau a dinasyddion
- cynllunio a rheoli portffolio rhanbarthol a lleol o brosiectau gydag awdurdodau lleol a phartneriaid cyflenwi eraill
- sicrhau bod prosiectau'n cyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt a rhannu arfer gorau
- gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gytuno ar brosiectau cenedlaethol sy'n diwallu anghenion rhanbarthol a lleol

**Awdurdodau lleol**

- arwain ar gynllunio a chyflawni pontio trwy drefniadau awdurdodau rhanbarthol arweiniol presennol
- llywio a chefnogi cynllunio a chyflawni ôl-bontio Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy drefniadau i'w pennu gan aelodau cyfansoddol
- cefnogi cynlluniau rhanbarthol i adlewyrchu anghenion lleol amrywiol a sicrhau bod anghenion parhaus ar ôl pontio yn cael eu cyfrif
- datblygu ceisiadau cyd-gynhyrchu ar gyfer unrhyw brosiectau lleol sy'n cyfrannu at ganlyniadau'r Cynllun Buddsoddi
- cyflawni unrhyw brosiectau lleol gan ddefnyddio dulliau partneriaeth, ac ymgysylltu â dinasyddion
- sicrhau bod unrhyw brosiectau lleol yn cyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt a rhannu arfer gorau

## 3.3 Buddsoddiadau cenedlaethol a rolau

Mae’n well cynllunio neu reoli rhai ymyriadau cyllido ar lefel genedlaethol, Cymru gyfan. Gallai hyn fod er mwyn manteisio ar arbedion maint, i gyd-drefnu a chynyddu arloesedd ar draws rhwydwaith partneriaethau, neu i fanteisio ar arbenigedd technegol penodol nad yw o reidrwydd ar gael ym mhob rhanbarth. Bydd disgwyl i brosiectau cenedlaethol gynnwys dulliau cyflenwi lleol yn aml.

Wrth ddefnyddio ein hegwyddorion i ystyried ymyriadau cenedlaethol, byddem am ddefnyddio'r un profion i sicrhau, er enghraifft:

- Bod gwerth ychwanegol clir o ddefnyddio'r cyllid hwn, a allai olygu rhoi cynnig ar bethau newydd, targedu grwpiau newydd, neu ehangu cwmpas daearyddol yn hytrach nag ychwanegu cyllid at brosiectau presennol yn unig.

- Mae buddsoddiadau'n cael eu blaenoriaethu er mwyn cael yr effaith fwyaf, fel mynd i'r afael â methiant penodol yn y farchnad neu dargedu grŵp sy'n cael ei dangynrychioli.

- Dangos effeithiau rhanbarthol a lleol, gyda chymeradwyaeth partneriaid rhanbarthol, ac ystyried opsiynau cyflawni lleol.

Rydym yn cynnig nodi cyfres graidd o ymyriadau cenedlaethol gyda phartneriaid ledled Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru’n asesu'r achosion busnes ar gyfer prosiectau cenedlaethol, ond bydd y rhain yn cael eu cynllunio a'u cyflawni gan y sefydliad mwyaf priodol, a allai gynnwys, er enghraifft, y trydydd sector, neu'r sector addysg uwch ac addysg bellach.

Bydd disgwyl i gynlluniau cenedlaethol fod o bwysigrwydd rhanbarthol a lleol. Er enghraifft, gwella mynediad lleol ar gyfer unrhyw gyllid sydd ar gael yn genedlaethol, darparu cynllun cenedlaethol yn uniongyrchol yn lleol (e.e. i fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd), neu lle mae cydweithio ledled Cymru a thros y ffin yn sbardun allweddol i ardaloedd lleol. Gall alinio â chynlluniau rhanbarthol, fel Cynlluniau Datblygu Strategol Cyd-bwyllgorau Corfforedig neu Gynlluniau Trafnidiaeth Lleol hefyd ddangos pwysigrwydd rhanbarthol.

Yn ystod yr ymgynghoriad hwn ac wrth i ni ddatblygu Cynllun Buddsoddi Cronfa Twf Lleol Cymru, rydym yn gofyn am farn ynghylch pa ymyriadau penodol fyddai angen dull gweithredu cenedlaethol ar eu cyfer. Byddwn yn gweithio gyda'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig a llywodraeth leol i ystyried y materion hyn a nodi a chytuno ar ddyraniad addas o gyllid i'w darparu.

**Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu ar gyfer buddsoddiadau cenedlaethol?**

**Cwestiwn 10: A oes gennych chi farn am unrhyw ymyriadau penodol y dylid eu blaenoriaethu ar lefel genedlaethol yn unrhyw un o'r meysydd blaenoriaeth buddsoddi a ddisgrifir yn Adran 2?**

### 3.4 Buddsoddiadau rhanbarthol a rolau

Ein bwriad yw bod y rhan fwyaf o'r Cyllid Twf Lleol yng Nghymru gael ei chynllunio, ei blaenoriaethu a'i rheoli ar lefel ranbarthol. Bydd hyn yn golygu datganoli cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru am flaenoriaethu rhanbarthol a rheoli portffolio er mwyn grymuso cynrychiolwyr y rhanbarthau hynny sy'n adnabod eu lleoedd a'u cymunedau orau. Bydd hyn yn osgoi gor-ganoli a oedd yn feirniadaeth ar gyllid yr UE a'r darnio a cholli’r cydlyniad strategol sydd wedi bod yn feirniadaeth o gynllunio ar lefel leol yn unig.   Er mwyn grymuso rhanbarthau Cymru, rydym yn cynnig cefnogi'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig sy’n rhan o bensaerniaeth llywodraeth leol yng Nghymru, i sbarduno ein dull rhanbarthol.

Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrff dynodedig sydd â'r bwriad o ganiatáu cydweithio haws, cyflymach a mwy effeithiol ar lefel rhanbarthol lle mae hynny'n gwneud synnwyr. Fel corff cyhoeddus, rhaid i Cyd-bwyllgorau Corfforedig osod ac adolygu amcanion llesiant a sefydlu sut y byddant yn cyfrannu at gyflawni Datblygu Cynaliadwy, sy'n gofyn am gydbwyso ac integreiddio twf economaidd, cynhwysiant cymdeithasol, a diogelu'r amgylchedd. Gyda Chynlluniau Datblygu Strategol, Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r pŵer i wneud unrhyw beth i wella neu hyrwyddo llesiant economaidd eu rhanbarth, mae cyfres o dystiolaeth ranbarthol a gwaith datblygu eisoes ar y gweill yn y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Rydym am gynnig cyfle i Gyd-bwyllgorau Corfforedig weithio gyda phartneriaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a blaenoriaethu portffolio cydgysylltiedig, rhanbarthol o ymyriadau o dan y rhaglen hon.

#### *3.4.1 Methodoleg dyrannu*

Ar gyfer y flwyddyn bontio byddwn yn gweithio'n agos gyda llywodraeth leol i nodi dyraniadau ar gyfer y flwyddyn gyntaf sy'n adlewyrchu'r anghenion a'r cyfleoedd orau sy'n alinio â'r gwaith a ddisgrifir o dan adran 3.1 (Rheoli'r trawsnewidiad i fodel newydd y Cyllid Twf Leol). Gall hyn hefyd gynnwys ystyried y ffactorau isod.

Yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad, rydym yn cynnig cytuno ar ddyraniadau rhanbarthol ar gyfer y cyfnod wedi pontio y Gronfa Twf Lleol yng Nghymru ar gyfer pob Cyd-bwyllgor Corfforedig. Bydd hyn yn seiliedig ar set o feini prawf gwrthrychol, sy'n gysylltiedig â'r blaenoriaethau a'r canlyniadau rydym am eu blaenoriaethu yn ein Cynllun Buddsoddi. Byddwn yn gweithio gyda llywodraeth leol i gytuno ar fethodoleg, ond mae dulliau blaenorol wedi ystyried: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru; cynhyrchiant y gweithlu; lefelau diweithdra ac anweithgarwch economaidd; a dwysedd poblogaeth.

**Cwestiwn 11: Oes gennych chi farn ar y meini prawf y dylid eu defnyddio i bennu dyraniadau rhanbarthol, sy'n gysylltiedig â'r blaenoriaethau?**

#### *3.4.2 Cynlluniau twf rhanbarthol*

I gael mynediad at y dyraniad rhanbarthol, rydym yn cynnig y bydd yn ofynnol i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig gysylltu gyda gweledigaeth deng mlynedd a chynnig cynllun cyflawni rhanbarthol i nodi'r blaenoriaethau, yr anghenion a'r cyfleoedd ar gyfer eu rhanbarth a sut maent yn bwriadu defnyddio eu dyraniad o'r Gronfa Twf Lleol i gefnogi twf cynhyrchiant a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd. Dylai'r rhain ddefnyddio a chyfrannu at y cynlluniau presennol yn hytrach na'u creu o'r newydd, gan gynnwys eu Cynllun Datblygu Strategol a'u Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Bydd y cysylltiad gyda'r weledigaeth deng mlynedd yn rhoi darlun tymor hwy o sut mae partneriaid rhanbarthol yn credu y bydd y rhanbarth yn datblygu a byddai'n adlewyrchu'r dirwedd fuddsoddi ehangach y tu hwnt i'r cronfeydd hyn (e.e. Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf, Ardaloedd Buddsoddi, Porthladdoedd Rhydd a buddsoddiadau eraill). Nid ydym yn cynnig bod yn rhagnodol ynghylch ar ba ffurf fydd hyn, gan gydnabod y bydd eisoes mewn rhai rhanbarthau. Rydym yn cynnig y byddai'r rhain yn eiddo i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ac ni fydd angen i Lywodraeth Cymru gytuno arnynt. Byddwn yn cynnig rhoi cymorth i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig hynny sydd am iddo ddatblygu gweledigaeth, oherwydd gallai gwneud hynny hefyd helpu Cyd-bwyllgorau Corfforedig i fanteisio ar ffynonellau cyllido newydd sy'n dod i'r amlwg, fel y rheini o Strategaeth Ddiwydiannol y DU a helpu i gyflwyno'r achos dros gyllido tymor hirach y tu hwnt i 2029.

Yn dilyn y trefniadau pontio, cynllun cyflawni pob rhanbarth fydd y ddogfen allweddol y cytunir arni gyda Llywodraeth Cymru i ryddhau cylliad a grymuso'r rhanbarth. Bydd yn amlinellu sut y bydd y rhanbarth yn blaenoriaethu buddsoddiad yn eu rhanbarth. Byddwn yn darparu templed i gefnogi y dadansoddi a'r blaenoriaethu hwn. Bydd angen i'r cynlluniau rhanbarthol hyn gyflawni yn erbyn ein Cynllun Buddsoddi i Gymru, gan gynnwys cyfrannu at y canlyniadau hynny, a defnyddio'r ddewislen o amcanion strategol o fewn iddo. Ni fydd angen iddynt nodi pob prosiect unigol. Bydd angen iddynt ddangos blaenoriaethu clir, set gysylltiedig o dargedau, a threfniadau llywodraethu a sicrwydd priodol (fydd yn y rhan fwyaf o achosion wedi'u sefydlu eisoes).

Bydd angen i'r gofynion rydym yn eu gosod a'r dull gweithredu rydym yn gynnig i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig eu mabwysiadu fod yn gymesur er mwyn cyflawni buddsoddiadau'n gyflym. Bydd angen i gynigion ar gyfer buddsoddi weithio ochr yn ochr â rhaglenni rhanbarthol eraill, gan lenwi bylchau ac ychwanegu gwerth. Rydym yn bwriadu gweithio gyda Cyd-bwyllgorau Corfforedig a llywodraeth leol er mwyn sicrhau bod y trefniadau mor syml â phosibl. Gall hyn olygu y bydd gwahanol ddulliau llywodraethu ond yn bodloni safonau cyffredin a mabwysiadu cysondeb mewn meysydd eraill lle bo angen, megis monitro a gwerthuso.

Bydd yn hanfodol dangos capasiti a gallu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig er mwyn gallu rhyddhau dyraniadau cyllid a bydd yn rhan o asesiad Llywodraeth Cymru o gynllun cyflawni Twf Lleol pob rhanbarth. Mae'r rôl rydym yn ei gynnig i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig wrth flaenoriaethu a chydlynu portffolio cydlynol o fuddsoddiad ar gyfer y rhanbarth yn hanfodol os ydym am wireddu manteision dull mwy strategol a blaenoriaethol. Rydym yn cynnig na ddylai mwy na 4% o ddyraniad cyllid Twf Lleol gael ei ddefnyddio i gefnogi capasiti a gallu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, awdurdodau lleol neu bartneriaid cyflawni allweddol eraill i gynllunio a darparu rhaglenni.

Rydym hefyd yn disgwyl i ymrwymiad cryf i weithio mewn partneriaeth gael ei adlewyrchu ar y lefel ranbarthol a lleol wrth gynllunio a darparu y Cyllid Twf Lleol, ar gyfer pontio ac y tu hwnt i hynny. Byddwn yn nodi gofynion ar gyfer cynnwys gwahanol bartneriaid, gan gynnwys mewn rolau cynghori, i sicrhau bod lleisiau o bob sector perthnasol yn cael eu clywed ac yn llywio penderfyniadau. Bydd hyn yn cynnwys y trydydd sector, busnesau, undebau llafur, addysg uwch ac addysg bellach. Bydd yr un gofynion yn berthnasol i Lywodraeth Cymru wrth weithredu yn ei rôl i gydlynu buddsoddiadau cenedlaethol ac i oruchwylio'r cyflawniad cyffredinol ar draws pob rhanbarth.

**Cwestiwn 12: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig gysylltu gyda gweledigaeth 10 mlynedd a chytuno ar gynllun cyflawni gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllid Twf Lleol?**

*3.4.3 Cyflawni'n lleol*

Fel y nodir yn yr adrannau uchod, byddem yn disgwyl i gyflenwi lleol barhau i fod yn elfen hanfodol ar gyfer prosiectau ar bob lefel. Bydd y rhan fwyaf o ymyriadau yn cynnwys cyflawni lleol hyd yn oed os ydynt wedi'u cynllunio neu eu blaenoriaethu ar lefel genedlaethol neu ranbarthol.

Dylai ymyriadau cenedlaethol a rhanbarthol felly ystyried rôl darpariaeth leol, boed hynny gan awdurdodau lleol neu gan gyrff eraill. Er enghraifft, gallai ymyriad cenedlaethol yn ymwneud â phenderfynyddion iechyd anweithgarwch economaidd gynnwys targedu awdurdodau lleol penodol a darparu dyraniadau lleol ar gyfer cyflawni.

Yn yr un modd, gellid nodi buddsoddiad mewn seilwaith lleol fel un pwysig yn rhanbarthol neu'n genedlaethol, felly er bod y blaenoriaethu yn cael ei wneud ar lefel genedlaethol neu ranbarthol, mae'r cyflawniad yn cael ei gynllunio a'i weithredu'n lleol. Bydd hefyd yn bosibl i Cyd-bwyllgorau Corfforedig ystyried sut y gallant gefnogi awdurdodau lleol orau i gyflawni cynlluniau rhanbarthol. Rôl allweddol i bob Cyd-bwyllgorau Corfforedig fydd dangos sut mae buddsoddiadau lleol yn cael eu blaenoriaethu i gefnogi eu cynlluniau rhanbarthol.

**Cwestiwn 13: A oes gennych unrhyw farn am sut y gellir cynnwys darpariaeth leol mewn cynlluniau cenedlaethol a rhanbarthol?**

### 3.5 Gwerthuso a dangos tystiolaeth o gyflawni

Mae monitro a gwerthuso cadarn ac effeithiol yn hollbwysig i lwyddiant pob polisi a buddsoddiad. Mae'n hanfodol ein bod yn mabwysiadu diwylliant o adolygu a gwella parhaus er mwyn dysgu o brofiad blaenorol, adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio, a sicrhau gwerth am arian. Mewn amgylchedd cyllidol cyfyngedig mae'r rhain yn bwysicach nag erioed.

Rydym yn disgwyl cytuno ar gyfres graidd o ofynion safonol a fydd yn berthnasol ar bob lefel o'r drefn gynllunio a darparu er mwyn sicrhau bod pethau'n gymharol ar draws Cymru a'r DU gyfan. Bydd hyn hefyd yn ein galluogi i ddangos sut mae ymyriadau ar bob lefel yn cyfrannu at ein nodau ar y cyd.

Mae angen i ni fod yn gymesur o ran y data rydym yn ei gasglu a sicrhau ei fod wedi'i gyfyngu i'r hyn sy'n hanfodol i ddangos cynnydd tuag at ein canlyniadau ac i gasglu'r hyn sydd ei angen arnom yn unig. Y meini prawf pwysicaf fydd cyflawni yn erbyn canlyniad a ddymunir, ac mae angen i ni osgoi gosod targedau allbwn anhyblyg sy'n cymell ymddygiad gwrthnysig.

Rydym hefyd yn cydnabod na fydd cylch cyllido tair blynedd yn ddigon o amser i weld canlyniadau ac effeithiau ym mhob achos, ond byddwn yn dal eisiau cael mecanweithiau i fonitro cynnydd tuag atynt a dull gwerthuso cadarn ar yr adeg iawn.

Rydym yn cynnig cefnogi Cyd-bwyllgorau Corfforedig a phartneriaid eraill ac yn cydlynu gweithgarwch gwerthuso annibynnol ar lefel rhaglen a rhanbarth. Dylai gwerthusiadau ar lefel ranbarthol a lefel prosiect fod yn gymesur â maint y buddsoddiad, a byddwn yn ystyried cyfleoedd i werthuso cyfresi o ymyriadau tebyg gyda'i gilydd.

Byddwn yn datblygu canllawiau i gefnogi monitro a gwerthuso effeithiol a byddwn yn hyrwyddo tryloywder yn y data hwnnw. Rôl allweddol i Lywodraeth Cymru fydd dod â Chyd-bwyllgorau Corfforedig a phartneriaid cyflawni ynghyd i rannu arferion gorau, rhannu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio, a thynnu sylw at y dystiolaeth newydd sy'n dod i'r amlwg.

Fel rhan o'n Cynllun Buddsoddi ar gyfer Cymru a'r cynlluniau cyflenwi rhanbarthol, byddwn yn sicrhau bod digon o gyllid yn cael ei ddyrannu i alluogi monitro a gwerthuso effeithiol, ac rydym yn disgwyl y bydd hyn yn cael ei gyflawni o'r hyd at 4% sydd ar gael i ddarparu capasiti a gallu.

**Cwestiwn 14: Ydych chi'n cytuno â'r dull o fonitro a gwerthuso neu eisiau cynnig barn ychwanegol fel sail i ddull newydd o weithredu?**

**Effaith ar y Gymraeg**
Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai ein cynigion ar gyfer y Gronfa Twf Leol yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cwestiwn 15: Pa effeithiau ydych chi'n meddwl fyddai? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?**

**Cwestiwn 16: Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid llunio'r cynigion ar gyfer y Gronfa Twf Leol neu eu newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.**

## Materion nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad

**Cwestiwn 17: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch yr ymgynghoriad hwn i fynd i’r afael â nhw.**